Cyngor Bwrdeistref Sirol
**MERTHYR TUDFUL**
**MERTHYR TYDFIL**
County Borough Council



# Adroddiad Perfformio Blynyddol 2016/17

# Cysylltu â Ni

**DWEUD EICH DWEUD**

Mae'r ddogfen hon yn adroddiad perfformiad cryno ar feysydd blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/17.

Rydym yn croesawu eich sylwadau ar yr adroddiad hwn a gwaith yr Awdurdod Lleol. I gael rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan yn y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu, gan gynnwys sut y gallwch gymryd rhan mewn awgrymu meysydd blaenoriaeth yn y dyfodol, cysylltwch â ni.

**Cyfeiriad**


Perfformiad Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN


**Ffôn**

01685 72 5000

**E-bost**

consultation@merthyr.gov.uk

# Tabl Cynnwys

Cysylltu â Ni .... 3
Tabl Cynnwys .... 4
Cyflwyniad .... 1
Gwybodaeth Ariannol .... 2
Buddsoddi ym Mlaenoriaethau Pobl .... 3
Trosolwg o Berfformiad .... 4
Cynllun Corfforaethol .... 5
Codi Safonau .... 7
Mae Blaenoriaeth 1: CODI SAFONAU CYRHAEDDIAD .... 8
Gwella Lles .... 9
Maes Blaenoriaeth 2: HYRWYDDO ANNIBYNIAETH .... 10
Maes Blaenoriaeth 3: DIWALLU ANGHENION PLANT SY’N AGORED I NIWED .... 11
Maes Blaenoriaeth 4: FFYRDD O FYW EGNÏOL .... 12
Twf Economaidd .... 13
Maes Blaenoriaeth 5: DATBLYGIAD ECONOMAIDD .... 14
Maes Blaenoriaeth 6: CYFLOGADWYEDD .... 15
Datblygu Amgylchedd Cynaliadwy .... 16
Maes Blaenoriaeth 7: AMGYLCHEDD CYNALIADWY .... 17
Rheoleiddio Allanol .... 18
Allwedd Perfformiad .... 19

## Adroddiad Gwella Blynyddol

Mae ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol yn ddogfen statudol rydym yn ei chyhoeddi i gyfleu ein hunan-werthusiad cyflawni yn erbyn y meysydd blaenoriaeth. Bwriad y ddogfen hon yw cynnig asesiad cyffredinol o berfformiad y cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn yr adrannau canlynol:

- Cynllun Corfforaethol
- Rheoleiddio Allanol
- ~~Dangosyddion Strategol Cenedlaethol~~[1]

Caiff y gwerthusiadau cryno eu hategu gan dystiolaeth ychwanegol a gwybodaeth y gellir ei chanfod yn y papurau cefndir cysylltiedig (atodiadau) sydd ar gael i'w lawrlwytho.

## Cynllun Corfforaethol

- Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer y cyngor rhwng 2013 a 2017. Mae hyn yn golygu bod gan ein cynghorwyr gyfres glir o flaenoriaethau i'w harwain wrth wneud penderfyniadau ac mae gan y cyngor gynllun i ddeall a yw'n llwyddo dros bedair blynedd.

## Rheoleiddio Allanol

- Mae ein gwaith yn cael ei graffu gan reoleiddwyr allanol i sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol i sicrhau buddion i'n cymunedau. Dyma grynodeb o adroddiadau archwilio diweddaraf a gyhoeddwyd.

[1] Mae casgliad data Dangosydd Strategol Cenedlaethol wedi dod i ben. Mae hyn yn dilyn penderfyniad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i ddiddymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012. Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i gasglu data gan awdurdodau lleol yn wirfoddol, wedi'u cydlynu gan Uned Data Cymru a'u cyhoeddi ar FyNghyngorLleol.

## Cyllideb Refeniw

Mae'r cyngor yn pennu cyllideb refeniw bob blwyddyn. Mae'r gyllideb refeniw hon yn cynnwys costau gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu, a thelir amdani gan ddefnyddwyr gwasanaeth, Grantiau Llywodraeth Cymru, trethdalwyr a thalwyr ardrethi busnes. Cyllideb refeniw'r Cyngor yn 2016/17 oedd £114.245 miliwn.

Yn 2010/11, er mwyn bodloni'r setliadau cyllideb a ragwelwyd fel rhan o doriadau gwariant Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r ddyled genedlaethol, dechreuwyd ar y broses o nodi lle y gallem wneud arbedion ariannol.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Cafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei adolygu yn 2016/17 i ystyried gostyngiadau i'r arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyngor yn gosod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig i gyflawni'r arbedion a sefydlwyd yn y Setliad.

Cafodd yr alldro ariannol dros dro ar gyfer 2016/17 ei adrodd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2017. Gellir darllen yr adroddiad a gyhoeddwyd drwy ddilyn y linc Adroddiad Cabinet.

**Tabl 1 yr alldro refeniw dros dro ar gyfer 2016/17 fesul prif faes gwasanaeth**

| **Alldro Refeniw** | **£ '000** |
|---|---|
| Dysgu | £ 43,015 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | £ 28,174 |
| Adfywio Cymunedol | £ 3,529 |
| Gwasanaethau Cymdogaeth | £ 10,172 |
| Ymddiriedolaeth Hamdden | £ 2,434 |
| *Pob Gwasanaeth Cyngor arall* | *£ 26,921* |
| **Cyfanswm** | **£ 114,245** |

## Buddsoddi ym Mlaenoriaethau Pobl

Ym mis Mehefin 2013, cytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2013 i 2017. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cyhoeddi diweddariad blynyddol, sef y Ddogfen Cyflawni Blynyddol.

Gan edrych yn ôl, rydym yn adolygu'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol ac yn crynhoi pa mor llwyddiannus fu'r Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Yr adroddiad hwn fydd ein Hadroddiad Perfformio Blynyddol olaf ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2013 i 2017. Gan edrych ymlaen, rydym wedi pennu ein huchelgeisiau at y dyfodol ar gyfer lles yn ein Datganiad Lles 2017 i 2022.

**Codi Safonau**

Dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol, rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol yng nghyrhaeddiad addysgol disgyblion, gyda gwelliannau nodedig yn y dangosydd cenedlaethol allweddol (trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg). Cafodd hyn gymorth drwy ein dull i feithrin gallu mewn ysgolion a galluogi ysgolion i gymryd cyfrifoldeb, ac mae atebolrwydd dros ysgogi gwelliannau yn yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth godi safonau.

**Gwella Lles**

Dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol, mae cyfraddau plant sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol gan yr Awdurdod Lleol wedi lleihau'n raddol ym Merthyr Tudful. Mae hyn yn amlwg iawn gyda gwelliannau i blant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, rydym wedi gweld gostyngiad graddol yn nifer yr ymweliadau i ganolfannau chwaraeon a hamdden, sydd bellach yn llai na chyfartaledd Cymru.

**Twf Economaidd**

Roedd gwelliant cadarnhaol yn parhau o fewn demograffeg busnes Merthyr Tudful, gyda nifer uchel o fusnesau yn cychwyn gan sicrhau bod enillion net i nifer y busnesau yn fwy na'r flwyddyn flaenorol gan arwain at gynnydd mewn mentrau gweithredol. Fodd bynnag, mae nifer o ddangosyddion economaidd allweddol yn parhau i fod yn ystyfnig yn is na chyfartaledd Cymru.

**Datblygu Amgylchedd Cynaliadwy**

Roedd rheoli gwastraff yn her sylweddol i'r Awdurdod Lleol. Rydym yn anfon gormod o wastraff i safleoedd tirlenwi a ddim yn ailddefnyddio, ailgylchu na chompostio digon o'r gwastraff a gynhyrchir. Fodd bynnag, dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol, gwnaethom leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi i lai na 5 y cant. Rydym yn eithriadol o falch o'r cynnydd a wnaed gan ein preswylwyr yn ailgylchu eu gwastraff, sydd wedi cyflawni'r cyfraddau ailgylchu uchaf erioed.

**Gareth Chapman**
**Prif Weithredwr**



## Trosolwg o Berfformiad

### Ein Gweledigaeth Gyffredin

Er mwyn cryfhau safle Merthyr Tudful fel y ganolfan ranbarthol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd, a lle i fod yn falch ohono, lle mae:

- Pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau
- Pobl yn byw, gweithio ac â bywyd diogel, iach a chyflawn
- Pobl yn ymweld, mwynhau a dychwelyd

### Diffinio Llwyddiant ar gyfer 2017

Nododd y Prif Weithredwr ei ddyheadau personol ar gyfer 2017, sef i'r Awdurdod Lleol fod yn un sydd orau am berfformio, sy'n gynaliadwy ac ag enw da ar gyfer sicrhau gwelliannau. I weld a ydym yn Gyngor sy'n perfformio'n dda, byddwn yn gwerthuso gwelliannau a wnaed yn ein blaenoriaethau ac yn canfod a ydym yn yr hanner uchaf o ran canlyniadau perfformiad allweddol ledled Cymru.

### Ein Blaenoriaethau

Mae'r crynodeb ar gyfer cyflawni'r meysydd blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol yn ystod 2016/17 i'w gweld yn nhabl 2, ac yn cynnwys dyfarniadau cyfanredol gan ddefnyddio'r data a gyhoeddwyd ac ein hunanwerthusiad o'r prosiectau a wnaed.

| Tabl 2 y meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer Merthyr Tudful | Dyfarniad |
|---|---|
| CODI SAFONAU | |
| • Maes Blaenoriaeth 1 – Codi Safonau Cyrhaeddiad | Digonol |
| GWELLA LLES | |
| • Maes Blaenoriaeth 2 – Hyrwyddo Annibyniaeth | Digonol |
| • Maes Blaenoriaeth 3 – Diwallu Anghenion Plant sy'n Agored i Niwed | Digonol |
| • Maes Blaenoriaeth 4 – Ffyrdd o Fyw Egnïol | Digonol |
| TWF ECONOMAIDD | |
| • Maes Blaenoriaeth 5 – Datblygu Economaidd | Digonol |
| • Maes Blaenoriaeth 6 – Cyflogadwyedd | Digonol |
| DATBLYGU AMGYLCHEDD CYNALIADWY | |
| • Maes Blaenoriaeth 7 – Amgylchedd Cynaliadwy | Da |

### Hunan-Werthusiad: Crynodeb Cyffredinol

Mae'r safle cyffredinol ar gyfer cyflawni'r meysydd blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol yn **DDIGONOL**, lle roedd cryfderau yn gwrthbwyso meysydd ar gyfer gwella. O'r saith maes blaenoriaeth, dyfarnwyd chwech yn ddigonol ac un yn dda.

### Negeseuon Allweddol

- Mae dull yr Awdurdod Lleol i feithrin gallu mewn ysgolion yn profi'n llwyddiannus o ran codi safonau. Mae safonau ym mhob cyfnod allweddol wedi gwella'n gyson dros bedair blynedd, ond mae rhai canlyniadau yng nghyfnod allweddol 4 yn parhau i fod yn isel o gymharu â ledled Cymru (MAES BLAENORIAETH 1).

- Roedd newidiadau sylweddol i'n data a system gwybodaeth gwasanaethau cymdeithasol o weithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru cenedlaethol (WCCIS). Aeth y system WCCIS yn weithredol ym mis Mehefin. Daeth gwelliannau i'r broses rhyddhau o'r ysbyty yn weithredol ar un safle ysbyty ym mis Ebrill 2017 a'r ail safle ysbyty ym mis Mai 2017, sydd wedi gwella mynediad i becynnau gofal y tu allan i oriau ac ar y penwythnos; mynediad i staff nyrsio ardal arbenigol; a mynediad i asesiad a chymorth meddyginiaeth arbenigol (MAES BLAENORIAETH 2).

- Mae cyfraddau plant sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol o'r Awdurdod Lleol wedi lleihau'n raddol ym Merthyr Tudful. Mae hyn yn arbennig o amlwg gyda gwelliannau i blant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau yn parhau i fod yn uchel o gymharu â ledled Cymru (MAES BLAENORIAETH 3).

- Cafodd Cynllun Merthyr Tudful Actif ganlyniadau cymysg o ran llwyddiant. Mae rhaglenni fel M Girls wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan weld datblygu sesiynau yn y gymuned a'r ysgol i helpu i bontio menywod ifanc i gyfleoedd ymarfer corff cymunedol prif ffrwd. Fodd bynnag, mae Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful wedi gweld dirywiad graddol yn nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden, sydd bellach yn is na chyfartaledd Cymru (MAES BLAENORIAETH 4).

- Roedd gwelliant cadarnhaol yn parhau o fewn demograffeg busnes Merthyr Tudful, gyda nifer uchel o fusnesau yn cychwyn gan sicrhau bod enillion net i nifer y busnesau yn fwy na'r flwyddyn flaenorol gan arwain at gynnydd mewn mentrau gweithredol. Fodd bynnag, mae nifer o ddangosyddion economaidd allweddol yn parhau i fod yn ystyfnig yn is na chyfartaledd Cymru (MAES BLAENORIAETH 5).

- Mae'r data poblogaeth yn dangos yn glir ddiffyg yn lefelau cymwysterau ôl-addysg Merthyr Tudful. Mae effaith uniongyrchol y gall yr Awdurdod Lleol ei chael yn gyfyngedig oherwydd nifer o bobl dan sylw, ond mae'r Awdurdod Lleol yn darparu nifer o brosiectau allweddol a ariennir gan Ewrop er mwyn cael camau mwy uniongyrchol. Mae'r prosiectau hyn yn gweld canlyniadau cadarnhaol gyda phob prosiect Ewropeaidd yn weithredol ac yn ymgysylltu â mwy o bobl na'r disgwyl. Dylai'r

prosiectau hyn helpu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur i ddysgu sgiliau newydd a goresgyn rhai o'r rhwystrau maent yn eu hwynebu (MAES BLAENORIAETH 6).

- Rydym yn parhau i wella'r cyfraddau ailgylchu, gyda nifer bach iawn o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Rydym wedi cryfhau ein hymateb i dipio anghyfreithlon ac wedi gwella effeithiolrwydd a pha mor gyflym rydym yn ymateb i achosion a adroddir. Fodd bynnag, mae glanweithdra ein strydoedd ym Merthyr Tudful yn parhau i fod yn faes ffocws (MAES BLAENORIAETH 7).

## Codi Safonau

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog:  Dysgu | Dorothy Haines |
| Aelod Arweiniol | Y Cynghorydd Harvey Jones |
| Ffocws Strategol | Codi Safonau |

**Cefndir**

Mae amcanion gwella'r Awdurdod Lleol ar gyfer 2013 i 2017 yn cynnwys maes blaenoriaeth Codi Safonau Cyrhaeddiad. Mae'r maes blaenoriaeth hwn yn ceisio blaenoriaethu ymdrechion o fewn ystod eang o weithgareddau i gael ffocws strategol ar gyrhaeddiad.

Mae'r ffocws ar safonau ar gyrhaeddir ac a gyflawnwyd gan ddysgwyr. Mae'r blynyddoedd cynnar yn hollbwysig i botensial plentyn ar gyfer dysgu a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Rydym am i bob plentyn fod â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyrraedd eu potensial academaidd, a chyfrannu fel dinasyddion cyfrifol i'w datblygiad eu hunain a'r gymuned ehangach.

Mewn ysgolion, ein blaenoriaethau yw gwella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth, ysgogi gwelliant mewn safonau llythrennedd a rhifedd, a lleihau effaith amddifadedd economaidd gymdeithasol ar gyrhaeddiad addysgol.

**Canlyniad:** Bydd plant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful yn cyrraedd eu potensial academaidd, ac â'r sgiliau angenrheidiol i gyfrannu fel dinasyddion cyfrifol i'w datblygiad eu hunain a'r gymuned ehangach

| **Mae ein gwerthusiad yn dweud bod y canlyniad hwn yn :** | **DIGONOL** |
|---|---|

Ym Merthyr Tudful (Awst 2016), y dyfarniad blynyddol ar gyfer canlyniadau yw digonol. Er bod safonau ym mhob cyfnod allweddol wedi gwella'n gyson dros bedair blynedd, mae rhai canlyniadau yng nghyfnod allweddol 4 yn parhau i fod yn isel (y trothwy Lefel 2 yn gynwysedig[2] yw 53.9 y cant o gymharu â chyfartaledd Cymru o 60.3 y cant a'r safle yw 19.).

Yn ogystal, mae gwerth ychwanegol[3] o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn dda yn gyffredinol ond ddim yn dda yn gyson ar draws bob ysgol. Nid yw'r dyfarniad ar gyfer canlyniadau yn gyffredinol yn well na digonol gan fod cyfraddau presenoldeb yn parhau yn rhy isel.

**Tabl 3** Allwedd Perfformiad

| **Dangosyddion addysg** | |
|---|---|
| % o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen | **88.1** |
| % o ddisgyblion sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 | **90.2** |
| % o bresenoldeb disgyblion (sesiynau hanner diwrnod) mewn ysgolion cynradd | **94.2** |
| % o ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster cymeradwy | **0.17** |
| % o ddisgyblion sy'n cyflawni trothwy L2 (Saesneg/Cymraeg a Mathemateg) | **53.9** |
| % o ddisgyblion cinio am ddim sy'n cyflawni trothwy L2 (Saes/Cym a Maths) | **41.2** |
| % o ddisgyblion sy'n cyflawni trothwy L2 yn cynnwys rhai galwedigaethol | **84.5** |
| Sgôr pwyntiau wedi'u capio ar gyfartaledd | **346** |
| % o bresenoldeb disgyblion (sesiynau hanner diwrnod) mewn ysgolion uwchradd | **93.4** |

**Tabl 4** Allwedd Gweithgaredd

| **Gweithgaredd gwella** | |
|---|---|
| Strategaeth Sgiliau Sylfaenol | **Gwyrdd** |
| Strategaeth Cynhwysiant Lefel 2 | **Gwyrdd** |
| Gwella canlyniadau i ddisgyblion sy'n gweithio ar y lefel ddisgwyliedig +1 | **Gwyrdd** |

[2] Cyfateb i 5 TGAU A*- C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg.
[3] Gwerth ychwanegol yw mesur y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion rhwng cyfnodau gwahanol addysg.

# Gwella Lles

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog: Gwasanaethau Cymdeithasol | Lisa Curtis-Jones |
| Aelod Arweiniol | Y Cynghorydd Linda Matthews |
| Ffocws Strategol | Gwella Lles |

**Cefndir**

Mae amcanion gwella'r Awdurdod Lleol ar gyfer 2013 i 2017 yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth:

- Hyrwyddo Annibyniaeth
- Diwallu Anghenion Plant sy'n Agored i Niwed
- Ffyrdd o Fyw Iach

Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn ceisio blaenoriaethu ymdrech o fewn ystod eang o weithgareddau i gael ffocws strategol ar alluogi gwasanaethau, ymyrraeth gynnar, atal, a gwasanaethau byrdymor, sy'n osgoi ac atal canlyniadau iechyd gwael o un genhedlaeth i'r nesaf. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ymarfer corff a phontio'r bwlch cydraddoldeb i gynnwys cyfleoedd i bobl anabl, menywod a merched.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda theuluoedd sydd mewn mwyaf o angen i nodi datrysiadau adeiladol i'r problemau maent yn wynebu, fel gall yr uned deulu gyfan fwynhau bywydau cadarnhaol ac ystyrlon a dod yn wydn ac annibynnol.

## Mae Blaenoriaeth 2: HYRWYDDO ANNIBYNIAETH

**Canlyniad:** Bydd pobl ym Merthyr Tudful yn gallu byw bywydau annibynnol a chyflawn

| **Mae ein gwerthusiad yn dweud bod y canlyniad hwn yn :** | **DIGONOL** |
|---|---|

Ym Merthyr Tudful (Mawrth 2017), y dyfarniad blynyddol ar gyfer canlyniadau oedd digonol. Roedd newidiadau sylweddol i'n data a system gwybodaeth gwasanaethau cymdeithasol gyda gweithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru cenedlaethol (WCCIS). Roedd y newidiadau hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddata yn newydd, gyda pheth data ddim ar gael neu ddim ond ar gael am gyfran o'r flwyddyn.

Yn sgil gweithredu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 diweddarwyd cyfeirlyfr DEWIS a diweddarwyd gwefan y Cyngor i adlewyrchu'r gofynion newydd.

Daeth gwelliannau i'r broses rhyddhau o'r ysbyty yn weithredol ar un safle ysbyty ym mis Ebrill 2017 a'r ail safle ysbyty ym mis Mai 2017, sydd wedi gwella mynediad i becynnau gofal y tu allan i oriau ac ar y penwythnos; mynediad i staff nyrsio ardal arbenigol; a mynediad i asesiad a chymorth meddyginiaeth arbenigol.

**Tabl 5** Allwedd Perfformiad

| **Dangosyddion poblogaeth** | |
|---|---|
| % o boblogaeth oedolion (18 oed a hŷn) a all fyw'n annibynnol | - |
| % o boblogaeth oedolion (18 oed a hŷn) na allant fyw'n annibynnol | - |
| Cyfradd oedi trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol | **1.48**[4] |
| Oed cyfartalog oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl (blynyddoedd) | **82.7**[5] |
| % o oedolion a gafodd y wybodaeth neu gyngor cywir pan oedd angen | **82.7**[5] |
| % o oedolion a gafodd gymorth IAA ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto | **62.4**[4] |

**Tabl 6** Allwedd Gweithgaredd

| **Gweithgaredd gwella** | |
|---|---|
| Adolygu cynnydd yn erbyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | **Da** |
| Ail-dendro Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol | **Da** |
| Gwella'r Broses Rhyddhau o'r Ysbyty | **Da** |

[4] Data o fis Ebrill 2016 i fis Medi 2016
[5] Data o fis Ebrill 2016 i fis Rhagfyr 2016

**Canlyniad:** Plant sy'n agored i niwed ym Merthyr Tudful yn byw bywydau iach, diogel a chyflawn

**Mae ein gwerthusiad yn dweud bod y canlyniad hwn yn:**

Ym Merthyr Tudful (Mawrth 2017), roedd y dyfarniad blynyddol ar gyfer canlyniadau yn ddigonol. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod cyfraddau plant sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol o'r Awdurdod Lleol wedi lleihau'n raddol ym Merthyr Tudful. Mae hyn yn amlwg iawn gyda gwelliannau i blant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad ar gyfer canlyniadau cyffredinol yn well na digonol gan fod cyfraddau plant sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn uchel o gymharu â ledled Cymru. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i ganolbwyntio ei ymdrechion ar ddatrys y materion sylfaenol sy'n creu'r angen i blant fod angen gofal a chymorth.

**Tabl 7** Allwedd Perfformiad

| **Dangosyddion poblogaeth** | |
|---|---|
| Cyfradd y Plant mewn Angen | **410** |
| Cyfradd y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | **82** |
| Cyfradd y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol | **113** |
| % o blant sy'n derbyn gofal â thri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn | **13.4**[6] |
| % o ailgofrestru plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol | **0.00**[6] |
| % o blant sy'n adrodd eu bod wedi cael y wybodaeth neu gyngor cywir pan oedd ei angen | **84.1**[7] |
| % o rieni a ddywedodd eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau ynghylch gofal eu plant | **69.4**[7] |

**Tabl 8** Allwedd Gweithgaredd

| **Gweithgaredd gwella** | |
|---|---|
| Gwella offer ymarferwyr i'w defnyddio pan fydd plant mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod | **Gwyrdd** |
| Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i blant a'u teuluoedd | **Gwyrdd** |
| Datblygu ymhellach ac ymestyn y Gwasanaeth Plant mewn Angen Uwch (ECIN) | **Gwyrdd** |
| Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal | **Oren** |

[6] Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y dangosyddion hyn ond yn lleol ac ar gael hyd at fis Rhagfyr 2016.
[7] Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Medi 2016 a mis Tachwedd 2016.

## Mae Blaenoriaeth 4: FFYRDD O FYW EGNÏOL

**Canlyniad:** Pobl ym Merthyr Tudful i fod yn weithgar yn gorfforol ac o ganlyniad gwella eu hiechyd

| | |
|---|---|
| **Mae ein gwerthusiad yn dweud bod y canlyniad hwn yn :** | **DIGONOL** |

Ym Merthyr Tudful (Mawrth 2017), y dyfarniad blynyddol ar gyfer canlyniadau yw digonol. Er bod Cynllun Merthyr Tudful Actif wedi'i gwblhau ac wedi cyflawni'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn y ddogfen, yn ystod y flwyddyn cafwyd canlyniadau cymysg o ran llwyddiant.

Mae rhaglenni fel M Girls wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni, gan weld datblygu sesiynau yn y gymuned yn ogystal â sesiynau yn yr ysgol i helpu i bontio menywod ifanc i gyfleoedd ymarfer corff cymunedol prif ffrwd.

Fodd bynnag, mae Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful wedi gweld dirywiad graddol yn nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden, sydd bellach yn is na chyfartaledd Cymru. Yn ogystal, er ei bod yn cymharu'n ffafriol, mae Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful wedi methu â chyflawni'r rhan fwyaf o'i thargedau a bennwyd yn erbyn Rhaglen Nofio Am Ddim Llywodraeth Cymru.

**Tabl 9** Allwedd Perfformiad

| **Dangosyddion poblogaeth** | |
|---|---|
| % o blant (bechgyn a merched) sy'n rhan o "Hooked on Sport" | Arolwg nesaf 2019 |
| % o oedolion (dynion a menywod) sy'n rhan o "Hooked on Sport" | Arolwg nesaf 2018 |
| % o blant (blwyddyn 11) sy'n gallu nofio (Pasio Prawf Nofio y Cwricwlwm Cenedlaethol) | **-** |
| % o oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew | **58.5** |
| Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol fesul 1000 poblogaeth | **8,137** |
| Cyfradd sy'n cymryd rhan mewn nofio cyhoeddus am ddim 60 oed a hŷn | **1,056** |
| Cyfradd sy'n cymryd rhan mewn nofio cyhoeddus am ddim 16 oed ac iau | **375** |

**Tabl 10** Allwedd Gweithgaredd

| **Gweithgaredd gwella** | |
|---|---|
| Cynllun Merthyr Tudful Actif | **Melyn** |
| Cyflawni Safon Arian Chwaraeon Anabledd Cymru | **Gwyrdd** |

# Twf Economaidd

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog: Adfywio Cymunedol | Alyn Owen |
| Aelod Arweiniol | Y Cynghorydd Chris Barry |
| Ffocws Strategol | Twf Economaidd |

**Cefndir**

Mae'r amcanion gwella awdurdod lleol ar gyfer 2013 i 2017 yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth:

- Datblygu Economaidd
- Cyflogadwyedd

Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn ceisio blaenoriaethu ymdrech o fewn ystod eang o weithgareddau i gael ffocws strategol ar yr economi a seilwaith, gwella'r safle economaidd ym Merthyr Tudful drwy gefnogi datblygiad busnes, yn benodol datblygu twristiaeth ac economi manwerthu wedi'i dargedu. Ar y farchnad lafur a sgiliau, cynnwys diwylliant o gydweithio i fynd i'r afael â diweithdra, lle mae rhaglenni ac ymyriadau wedi'u cydlynu ac yn canolbwyntio ar ystod o sefydliadau i gefnogi oedolion a phobl ifanc (16 oed a throsodd) i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer gwaith a'u helpu i gael a chadw cyflogaeth.

## Maes Blaenoriaeth 5: DATBLYGIAD ECONOMAIDD

**Canlyniad:** Economi cynaliadwy sy'n tyfu i Ferthyr Tudful, gan gynnig ystod eang o gyfleoedd swyddi o safon

| Mae ein gwerthusiad yn dweud bod y canlyniad hwn yn : | DIGONOL |
|---|---|

Ym Merthyr Tudful (Mawrth 2017), roedd y dyfarniad blynyddol ar gyfer canlyniadau yn ddigonol. Mae gwelliant cadarnhaol yn parhau o fewn demograffeg busnes Merthyr Tudful, gyda chynnydd mewn mentrau gweithredol o 306 (2012) i 354 (2015). Mae Merthyr Tudful yn parhau i fod â chyfradd uchel o fusnesau yn cychwyn a gorffen, ac mae enillion net nifer y busnesau yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae nifer o ddangosyddion economaidd allweddol yn parhau i fod yn ystyfnig yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae enillion wythnosol canolrif yn dangos cynnydd ym Merthyr Tudful ac mae canran y boblogaeth o oed gweithio sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith ym Merthyr Tudful wedi parhau'n gyson rhwng 2.6 y cant a 3.0 y cant, ond y neges allweddol yw, o fis Mawrth 2012 i fis Mawrth 2017 mae perfformiad wedi gwella.

**Tabl 11** Allwedd Perfformiad

| Dangosyddion poblogaeth | |
|---|---|
| % o'r boblogaeth oed gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith | 3.00 |
| Cyflog blynyddol canolrif (gros) ar gyfer gweithwyr llawn amser (£) | 454 |
| % cyfradd goroesi (3 blynedd) mentrau newydd | 57.7 |
| Cyflenwad eleni o dir tai (Astudiaeth Argaeledd Tir Tai ar y Cyd) | 1.60 |
| Nifer y busnesau newydd sy'n cychwyn/gorffen yn yr ardal | 230 / 150 |
| Cyfradd busnes weithredol fesul 10,000 poblogaeth oed sy'n gweithio | 354 |

**Tabl 12** Allwedd Gweithgaredd

| Gweithgaredd gwella | |
|---|---|
| Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Da |
| Strategaeth Menter Gymdeithasol a Rhaglen Datblygu | Digonol |
| Cynllun Rheoli Lleoliad | Digonol |

## Maes Blaenoriaeth 6: CYFLOGADWYEDD

**Canlyniad:** Rydym am helpu oedolion a phobl ifanc (16 oed a throsodd) i ddatblygu eu sgiliau gwaith a chael a chadw cyflogaeth

| **Mae ein gwerthusiad yn dweud bod y canlyniad hwn yn** | **DIGONOL** |
|---|---|

Ym Merthyr Tudful (Mawrth 2017), y dyfarniad blynyddol ar gyfer canlyniadau yw digonol. Mae'r data poblogaeth yn dangos yn glir ddiffyg yn lefelau cymwysterau ôl-addysg Merthyr Tudful. Mae effaith uniongyrchol y gall yr Awdurdod Lleol ei chael yn gyfyngedig oherwydd nifer o bobl dan sylw, ond mae'r Awdurdod Lleol yn darparu nifer o brosiectau allweddol a ariennir gan Ewrop er mwyn cael camau mwy uniongyrchol. Mae'r prosiectau hyn yn gweld canlyniadau cadarnhaol gyda phob prosiect Ewropeaidd yn weithredol ac yn ymgysylltu â mwy o bobl na'r disgwyl. Dylai'r prosiectau hyn helpu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur i ddysgu sgiliau newydd a goresgyn rhai o'r rhwystrau maent yn eu hwynebu.

Yn ogystal, rydym wedi gweld llwyddiant parhaol o ran lleihau'r gyfran o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**Tabl 13** Allwedd Perfformiad

| **Dangosyddion perfformiad** | **2016** |
|---|---|
| % o'r boblogaeth oed gweithio mewn cyflogaeth | **69.0** |
| % o'r boblogaeth oed gweithio sy'n gymwys i NVQ lefel 2 ac uwch | **68.2** |
| % o'r boblogaeth oed gweithio heb unrhyw gymwysterau | **15.5** |
| % o rai 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | **1.00** |
| % o rai sydd wedi gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl 12 mis | **37.5**[8] |
| % o rai sydd wedi gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl 24 mis | **60.0**[8] |

**Tabl 14** Allwedd Gweithgaredd

| **Gweithgaredd gwella** | **Statws** |
|---|---|
| Pontydd i Waith 2 | **Melyn** |
| Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 | **Melyn** |
| Ysbrydoli i Gyflawni | **Gwyrdd** |
| Ysbrydoli i Weithio | **Oren** |

[8] Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y dangosyddion hyn ond ar gael yn lleol ac ar gael hyd at fis Rhagfyr 2016.

## Datblygu Amgylchedd Cynaliadwy

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog: Gwasanaethau Cymdogaeth | Cheryllee Evans |
| Aelod Arweiniol | Y Cynghorydd David Jones |
| Ffocws Strategol | Datblygu Amgylchedd Cynaliadwy |

**Cefndir**

Mae amcanion gwella yr awdurdod lleol ar gyfer 2013 i 2017 yn cynnwys y maes blaenoriaeth ‘Amgylchedd Cynaliadwy’. Mae’r maes blaenoriaeth hwn yn ceisio blaenoriaethu ymdrech o fewn ystod eang o weithgareddau i gael ffocws strategol ar reoli gwastraff a gweithgareddau glanweithdra.

Bydd Maes Blaenoriaeth 7 yn canolbwyntio ar ein cyfraniad at y strategaeth gwastraff ‘Tuag at Ddyfodol Diwsatraff’, sy’n nodi sut yr ymdrinnir â gwastraff yng Nghymru er mwyn creu buddion nid yn unig i’r amgylchedd, ond hefyd i’n heconomi a’n lles cymdeithasol.

## Maes Blaenoriaeth 7: AMGYLCHEDD CYNALIADWY

**Canlyniad:** Mae pobl ym Merthyr Tudful yn byw mewn cymunedau sy'n gynaliadwy, yn lân ac yn effeithlon o ran ynni

| **Mae ein gwerthusiad yn dweud mai'r canlyniad hwn yw** | **DA** |
|---|---|

Ym Merthyr Tudful (Mawrth 2017), y dyfarniad blynyddol ar gyfer canlyniadau yw da. Mae'r data ailgylchu dros dro yn dangos ein bod wedi parhau i gyflawni gwelliannau sylweddol i gyfraddau ailgylchu, gyda nifer fach iawn o wastraff yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi.

Rydym wedi cryfhau ein hymateb i dipio anghyfreithlon ac wedi gwella effeithiolrwydd a pha mor gyflym rydym yn ymateb i achosion a adroddir. Fodd bynnag, mae'r Mynegai Glanweithdra yn dangos glanweithdra gwael ar ein strydoedd ym Merthyr Tudful. Mae hwn yn faes sydd angen ffocws parhaus.

Ar ôl cwblhau Prosiect Goleuadau Stryd, mae data y flwyddyn gyntaf lawn yn dangos 78 y cant o ostyngiad yn y defnydd o ynni o'r defnydd uchaf yn 2012/13. Mae'r gostyngiad mewn defnydd ynni yn cyd-berthyn yn uniongyrchol â gostyngiad mewn allyriadau carbon o oleuadau stryd.

**Tabl 15** Allwedd Perfformiad

| **Dangosyddion poblogaeth** | |
|---|---|
| % o wastraff dinesig wedi ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | **65.1** |
| % o wastraff dinesig a anfonwyd i safleoedd tirlenwi | **3.66** |
| Sgôr cyfartalog ar gyfer Mynegai Glanweithdra | **66.5** |
| % o achosion tipio anghyfreithlon a gliriwyd mewn 5 diwrnod gwaith | **100** |
| % o gartrefi gwag yn cael eu hailddefnyddio | **6.86** |
| % o briffyrdd a arolygwyd o safon glanweithdra uchel neu dderbyniol | **97.0** |
| Defnydd ynni blynyddol cyfartalog o Oleuadau Stryd (GWh) | **0.83** |

**Tabl 16** Allwedd Gweithgaredd

| **Gweithgaredd gwella** | |
|---|---|
| Tipio anghyfreithlon | **Gwyrdd** |
| Rheoli Gwastraff | **Gwyrdd** |
| Prosiect Glan-yr-afon | **Melyn** |

Fel pob cyngor yng Nghymru, mae rheoleiddwyr allanol yn craffu ar ein gwaith i sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol i gyflawni buddion i'n cymunedau. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru raglen archwilio ac asesu flynyddol y mae'n gwneud yn y cyngor, a chaiff casgliadau'r gwaith hwn eu dwyn ynghyd mewn Adroddiad Gwella Blynyddol. Mae rheoleiddwyr eraill yn gwneud gwaith sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth penodol. Y rheoleiddwyr sylfaenol eraill yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Bob blwyddyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd ar pa mor dda mae pob cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf ar gyfer Merthyr Tudful yn cynnwys yr Asesiad Corfforaethol a chafodd ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, yn ystod 2016/17 **fod y Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol mewn cysylltiad â gwelliant parhaus.**

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella i helpu i gyfeirio'r Awdurdod Lleol i gryfhau ei drefniadau llywodraethu a threfniadau cynllunio ariannol.

- Cyhoeddi blaenraglen waith y Cabinet sy'n cynnwys manylion am gynigion i newid gwasanaethau sydd ar y gweill;
- Sicrhau bod pwyllgorau craffu yn cael cyfle i benderfynu a ydynt yn dymuno craffu ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau, gan gynnwys caniatáu digon o amser yn y broses gwneud penderfyniadau i alluogi ystyriaeth ystyrlon o'r cynigion; a
- Darparu rhagor o fanylion am gynigion arbedion a gynllunnir wrth bennu'r gyllideb flynyddol i wella tryloywder gwneud penderfyniadau.

## AROLYGIAETH EI MAWRHYDI DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT YNG NGHYMRU (ESTYN)

Caiff holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru eu harchwilio yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Gellir gweld y dogfennau a gyhoeddwyd diwethaf gan Estyn ar yr Awdurdod Lleol a'i ysgolion ar wefan Estyn.

Mae Estyn wrthi'n adolygu'r fframwaith ar gyfer arolygu awdurdodau lleol y byddant yn eu treialu yn 2017/18 a'u gweithredu yn 2018/19.

## AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU (AGGCC)

Bob blwyddyn, mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn adrodd ar feysydd cynnydd allweddol a meysydd ar gyfer gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod. Roedd yr arolwg cenedlaethol diweddaraf yn canolbwyntio ar ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, a oedd yn cynnwys Merthyr Tudful fel un o chwe awdurdod lleol a gafodd ymweliad gan AGGCC. Mae'r adroddiad ar gael yn www.cssiw.org.uk/?lang=cy.

Un argymhelliad allweddol oedd i ddatblygu gweledigaeth ffurfiol a strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu gwasanaeth, yn seiliedig ar ddadansoddiad o angen, a all ystyried gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Mae'r canlynol yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn eich helpu i ddeall dadansoddiad ein cynnydd, yn benodol mewn cysylltiad â'n meysydd blaenoriaeth.**

Mae gan bob maes blaenoriaeth ganlyniad cysylltiedig, sy'n disgrifio'r buddion rydym yn ceisio eu cyflawni i'n cymunedau. Nid yw canlyniad yn fesuradwy yn ei hun, felly, er mwyn bod yn atebol ac i asesu a ydym yn cyflawni'r buddion a ddymunir, rydym yn defnyddio dangosyddion a gweithgareddau gwella. Mae hyn yn galluogi'r cyngor i fesur cyflawniad a deall ei effaith ar ganlyniadau.

**Gwerthusiad**

Ffurfir ein gwerthusiad cyfanredol (dyfarniad) ar gyfer pob maes blaenoriaeth drwy ystyried:

- **safle presennol** y dangosyddion, a
- **chyfradd gwella** y dangosyddion, a
- **hyder cyflawni** ar gyfer prosiectau allweddol

Bydd y defnydd o'r elfennau hyn yn galluogi dyfarniad hysbys, a arweinir gan y diffiniadau canlynol:

- **Rhagorol**, nifer o gryfderau lle rydym yn uchel o gymharu ag eraill, gyda chyfraddau gwella cadarnhaol a/neu dystiolaeth o effaith gadarnhaol sylweddol ar newid i ganlyniadau
- **Da**, nifer o gryfderau lle mae ein safle cymharol uwchben canolrif Cymru, gyda chyfraddau gwella cadarnhaol a/neu dystiolaeth o effaith gadarnhaol ar newidiadau i ganlyniadau
- **Digonol**, rhai cryfderau lle mae ein safle cymharol yn is o ran canolrif, gyda rhai cyfraddau gwella a/neu dystiolaeth o effaith gadarnhaol ar newid i ganlyniadau
- **Anfoddhaol**, lle mae meysydd pwysig ar gyfer gwella lle rydym mewn safle cymharol isel, gydag ychydig o gyfraddau gwella neu gyfraddau negyddol a/neu dim effaith o newid i ganlyniadau

### Safle Presennol

Caiff ein dangosyddion eu gwerthuso yn seiliedig ar ein safle graddio o gymharu ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Diben defnyddio data cymharol yw ein galluogi i ddeall ein perfformiad cymharol ledled Cymru.

Mae lliw statws ar gyfer pob mesur yn ymwneud â’n safle graddio (yr ystod chwartel) yng Nghymru. Mewn rhai achosion ni allwn gymharu’r mesur hwnnw ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Yn yr achosion hyn, caiff y dangosyddion eu cymharu yn erbyn targedau awdurdodau lleol.

**Tabl 17 diffiniad o statws dangosyddion**

| Diffiniad perfformiad | Chwarter | Gradd | Statws |
|---|---|---|---|
| Mae’r safle presennol yn rhagorol | 1 (uwch) | 1-6 | Rhagorol |
| Mae’r safle presennol yn dda | 2 (canol uwch) | 7-11 | Da |
| Mae’r safle presennol yn ddigonol | 3 (canol is) | 12-16 | Digonol |
| Mae’r safle presennol yn anfoddhaol | 4 (is) | 17-22 | Anfoddhaol |
| Nid oes gwybodaeth gymharol, data lleol yn unig | Amherthnasol | Amherthnasol | |

### Cyfradd gwella

Yn ogystal, bydd ein gwerthusiad cyfanredol yn ystyried y gyfradd wella. Dyma’r lefel o newid a fesurir o fewn dangosydd yn erbyn y lefel ddisgwyliedig i wireddu ein huchelgais neu garreg milltir penodol. Mae ein gwerthusiad yn seiliedig ar y gyfradd gwella a bydd yn canolbwyntio ar y newid a’r cyfeiriad teithio:

- A yw’r gwelliant yn unol â’n huchelgais/carreg filltir
- A ydym yn cau’r bwlch rhwng grwpiau penodol

### Hyder Cyflawni

Bydd gan bob gweithgaredd gwella, sydd naill ai yn brosiect neu’n weithred, hyder cyflawni. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth o ba mor hyderus ydym ni y bydd y prosiect a’r weithred yn cael eu cyflawni’n llwyddiannus. Mae’r tabl isod yn amlygu’r diffiniadau a ddefnyddir i ddangos “hyder cyflawni” prosiectau a gweithredoedd.

**Table 18 diffiniadau statws gweithgareddau gwella**

| Diffiniad o weithgaredd gwella | Statws |
|---|---|
| Mae cyflawni’n llwyddiannus yn ymddangos yn debygol heb faterion mawr heb eu datrys i fygwth cyflawni hynny | Rhagorol |
| Mae cyflawni’n llwyddiannus yn ymddangos yn debygol ond mae angen sylw rheolwyr ar rai materion | Da |
| Mae cyflawni’n llwyddiannus yn amheus gyda risgiau neu faterion mawr mewn nifer o feysydd allweddol | Digonol |
| Mae’n ymddangos na ellir cyflawni’n llwyddiannus | Anfoddhaol |
| Prosiect wedi’i gwblhau’n llwyddiannus | |

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council